
# Gosod estyniad porwr gwe Authenticator


Os nad ydych yn gallu defnyddio dyfais symudol i sefydlu MFA, gallwch osod Authenticator, yr estyniad porwr gwe, fel datrysiad amgen.

## Mozilla Firefox


1. Defnyddiwch borwr gwe Mozilla Firefox ar eich cyfrifiadur i fynd i dudalen hafan [Authenticator extension](https://authenticator.cc) a chlicio'r botwm **Add to Firefox**.





2. Cewch eich tywys i wefan Ychwanegion Mozilla Firefox, gyda *Authenticator* eisoes wedi'i ddewis ac yn barod i'w osod. Cliciwch **Add to Firefox**.





3. Bydd Mozilla Firefox yn eich annog i gadarnhau eich bod am ychwanegu ychwanegiad *Authenticator*. Cliciwch **Add**.





4. Ar ôl i'r estyniad gael ei osod yn llwyddiannus, fe'ch hysbysir bod *Authenticator* wedi'i ychwanegu at Mozilla Firefox. Cliciwch y botwm **Okay. Got it** ar y ffenestr naid i'w chau.





5. Nawr defnyddiwch borwr gwe Mozilla Firefox i fynd i [https://aka.ms/mfasetup](https://aka.ms/mfasetup)
6. Efallai y gofynnir i chi fewngofnodi i Office 365 (os ddim, byddwch yn **symud yn syth i gam 7**). Os gofynnir i chi fewngofnodi i Office 365, rhowch eich cyfeiriad ebost Prifysgol Caerdydd a chlicio **Next**. Yna cewch eich ailgyfeirio i sgrîn fewngofnodi arferol Prifysgol Caerdydd. Rhowch eich cyfeiriad ebost a'ch cyfrinair Prifysgol Caerdydd fel arfer a chlicio **Log in**.
7. Os nad ydych wedi sefydlu unrhyw ddulliau MFA o'r blaen, fe gewch neges i ddweud bod angen **mwy o wybodaeth** ar ôl mewngofnodi'n llwyddiannus. Cliciwch **Next a neidio i gam 9**.





Fel arall, cewch eich tywys i dudalen *My Sign-ins* ble gallwch weld y dulliau MFA sydd eisoes wedi'u sefydlu. Cliciwch ar **Add method**.





8. Yn y ddeialog naid sy'n ymddangos, dewiswch **Authenticator app** o'r gwymplen, ac yna cliciwch **Add**.




9. Byddwch yn gweld dialog Microsoft Authenticator sy'n dweud wrthych i fynd ati i gael yr ap. Cliciwch **I want to use a different authenticator app**.





10. Mae'r sgrin nesaf yn eich annog i **Sefydlu eich cyfrif.** Cliciwch **Next**.





11. Mae'r sgrîn nesaf yn rhoi côd QR. Cliciwch ar **Can't scan image?**




12. Bydd “Allwedd gyfrinachol” i’w gweld, cliciwch ar eicon dwy ffeil sy'n gorgyffwrdd i'r dde o'r allwedd. Bydd hynny'n copïo testun yr allwedd gyfrinachol yn barod i'w ludo.





13. Cliciwch y botwm QR penodol ar ochr dde'r bar cyfeiriad ar frig y porwr, a bydd ychwanegiad *Authenticator* yn ymddangos.





14. O fewn ychwanegiad *Authenticator*, cliciwch ar eicon pensil, ac yna cliciwch ar yr eicon plws i ychwanegu cyfrif.





15. Cliciwch ar **Manual Entry**.


Scan QR Code
Manual Entry


16. Nodwch Brifysgol Caerdydd ym mlwch testun y Darparwr, neu fel arall nodwch ddynodwr arall o'ch dewis fydd yn eich helpu i gofio bod y cofnod hwn yn ymwneud â MFA Office 365 Prifysgol Caerdydd.




17. Gludwch yr "Allwedd gyfrinachol" y gwnaethoch chi ei chopïo yng ngham 11 i'r blwch testun gyda'r enw Cyfrinachol.
18. Cliciwch **Ok**.
19. Bydd ychwanegiad *Authenticator* yn dangos mynediad newydd i Brifysgol Caerdydd gyda chôd 6 digid sy'n adnewyddu bob 30 eiliad.





20. Cliciwch ar eicon pensil.
21. O fewn cofnod Prifysgol Caerdydd, nodwch eich cyfeiriad ebost Prifysgol Caerdydd yn y blwch testun Enw Defnyddiwr.





22. Cliciwch ar yr eicon ticio.
23. Gofynnir i chi a ydych am roi'r ychwanegiad *Authenticator* i allu copïo'r côd 6 digid i mewn i'ch clipfwrdd cyfrifiadur. Cliciwch **Allow**.




24. Bydd clicio ar y côd 6 digid yn achosi iddo gael ei gopïo i mewn i glipfwrdd eich cyfrifiadur





25. Ar y dudalen we gyda'r côd QR a'r allwedd Gyfrinachol, cliciwch ar Next. Bydd Microsoft yn eich annog i nodi'r côd chwe digid yn yr *Authenticator*. Rhowch ef a chlicio ar **Next**.
26. Mae estyniad *Authenticator* wedi'i gysylltu â'ch cyfrif. Nawr gallwch ddefnyddio'r ap i gwblhau'r MFA ar gyfer eich cyfrif.




27. Cliciwch **Set default sign-in method**, ac ar y naidlen, dewiswch y dull sydd orau gennych ar gyfer cwblhau MFA.




28. Bydd y dull mewngofnodi diofyn a ddewiswyd gennych nawr yn cael ei arddangos.


My Sign-ins
Security info
These are the methods you use to sign in to your account or reset your password.
Default sign-in method: Microsoft Authenticator – notification Change
Add method
Phone
+44
Change
Delete
Microsoft Authenticator
iPhone8
Delete
Authenticator app
Delete